

# CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid  
*Clerk and Chief Financial Officer*

**Donna Watts**

01248 602131

[CyngorLlanllechid@ogwen.org](mailto:CyngorLlanllechid@ogwen.org)

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd yn y Llechan, Talybont  
ar nos Iau 12 Rhagfyr, 2019 am 1800**

## **1. PRESENNOL:**

### **Ward Llanllechid Isaf**

Y Cynghorydd Evan Jones

Y Cynghorydd Margaret Fernley

Y Cynghorydd Geraint Hughes

Y Cynghorydd Alun Thomas

Y Cynghorydd Wyn Bowen Harris

Y Cynghorydd Megan Tomos

Y Cynghorydd Myfanwy Jones

### **Ward Llanllechid Uchaf**

Y Cynghorydd Kevin Williams

Y Cynghorydd Dafydd Jones

Y Cynghorydd Jên Morris

## **Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Geraint Hughes.**

Dymunodd pawb benblwydd hapus i'r Cyng. Geraint Hughes oedd yn dathlu ei benblwydd heddiw.

## **2. Ymddiheuriadau** Dim-pawb yn bresennol.

## **3. Cofnodion**

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd, 2019.

## **4. Materion yn codi o'r cofnodion**

**Diffibriliwr** – adroddwyd bod y diffibriliwr wedi cael ei osod yn y ciosg yn Llan ar y 15 o Dachwedd, ond nid oedd y digwyddiad hyfforddiant wedi mynd ymlaen ar 28 o Dachwedd yn y Ffestri, Tal y bont. Y clerc i ail-drefnu ar gyfer y flwyddyn newydd.

**Crymlyn, Aber** - Y Clerc i holi unwaith eto am yr arwyddion 'sat nav'.

**Airfields of Britain Conservation Trust** - y plac coffa wedi ei osod. Y Cyngor yn awyddus i gael disgyblion o Ysgol Llanllechid yno i ymweld yn y Gwanwyn.

**Ffordd wrth Wern Bach** – twll wedi ymddangos yn y lôn unwaith eto. Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd. Y Cyng. Dafydd Meurig am holi hefyd.

**Llwybr cyhoeddus yn Tan y Garth** – draen o dan y ddaear wedi rhoi yn un o'r caeau, sy'n rhwystro'r llwybr cyhoeddus. Cyngor Gwynedd i gwblhau ychwaneg o ymchwiliadau pan fu'r tywydd yn addas.

**Llifogydd Tan Lôn** – Cyngor Gwynedd wedi bod i archwilio'r safle. Bydd y gwaith tacluso'n cael ei gyflawni cyn gynted a bod adnoddau'n caniatáu. Y gwaith glanhau heb ei wneud pan ddaeth fwy o lifogydd ar ddechrau'r wythnos hon. Y Clerc i holi Cyngor Gwynedd unwaith eto. Hefyd angen trefnu cyfarfod gyda Cyngor Gwynedd a Stad Penrhyn ar y safle i drafod y cylfat.

**Draeni ar Lôn y Bryn** – 4 sinc wedi codi ac yn rhedeg yn chwithig. Adroddwyd bod y gwaith wedi ei wneud.

**Mynydd i Parc Main** – defaid yn mynd drwodd i'r mynydd gan nad oes rhwystr yno. Y Clerc i hysbysu Stad Penrhyn. Dim ymateb hyd yn hyn.

**Biniau halen** – y Clerc wedi danfon rhestr at y Cyngor – Cyngor Gwynedd i lenwi'r biniau.

**Caeau chwarae** – dal i ddisgwyl mwy o fanylion gan Gyngor Gwynedd ynglŷn a'r costau a chyfrifoldebau.

**Allt Tŷ'n Hendre a Ffordd Bronydd** – tyllau ar hyd y ffordd. Adroddwyd bod y twll enfawr wedi ei lenwi.

**Car wedi ei adael yn Chwarel Bryn** – adroddwyd bod y car wedi mynd bellach.

**Cais cynllunio Fferm Talybont Uchaf** – y Clerc i holi am yr arwyddion sydd fod i gael eu gosod.

## 5. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

Partneriaeth Ogwen-gwasanaeth Clercio	£2317.45
Neuadd Talgai	£25.00

## 6. Gohebiaeth

**Cyflwynwyd** – ebost gan Cylch yr Iaith – copi o lythyr sydd wedi ei anfon at Gyngor Gwynedd ynghylch y bwriad i enwebu Tirwedd Llechi Gogledd Cymru yn Safle Treftadaeth y Byd. Penderfynwyd bydd yr aelodau yn ymateb fel unigolion os ydynt yn dymuno.

**Cyflwynwyd** – e-bost gan Gyngor Gwynedd yn ein hysbysu bydd yr Arolygwr Priffyrdd yn cadw golwg ar y sefyllfa ar Lôn Goed. Y Clerc i ymateb bod y canghennau isel yn bendant yn amharu ar gerbydau sy'n teithio ar y ffordd.

**Cyflwynwyd** – ymateb gan Up Hill Down dale ynglŷn a'r digwyddiad Llwybr Llechi ym mis Chwefror. Maent yn disgwyl oddeutu 45 o ymgeiswyr.

## 7. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

**Grŵp Llywio Cefnfaes** – y Cyng. Jên Morris wedi mynychu'r cyfarfod diwethaf. Adroddwyd bod y pwyllgor yn gobeithio cael mwy o aelodau er mwyn chwilio am wahanol syniadau ar gyfer y ganolfan.

**Carwen y car trydan** – prosect am flwyddyn ydi'r car felly gobeithio y bydd yn adnodd gwerthfawr i'r gymuned.

## 8. Penderfyniadau Cynllunio:

Dim ceisiadau.

### Ceisiadau Cynllunio:

**C19/1077/21/HY**

Ogwen Bank, Maes Carafannau, Bethesda

Cais ôl-weithredol i osod 3 arwydd wedi eu goleuo.

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

**C19/1021/16/LL**

Hartwell, 1 Bythynnod, Tal y bont, Bangor

Disodli tô gwastad gyda crib ynghyd ac estyniad i greu porth

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

### **9. Materion Brys**

**Rali a gynhaliwyd 7fed o Ragfyr** – adroddwyd bod rali ar hyd lonydd cul Llanllechid ac nid oedd rhai preswylwyr wedi cael rhybydd o'r digwyddiad. Y Clerc i gysylltu gyda North Wales Rally i holi.

**Lôn Giatws** – adroddwyd bod oergell wedi ei gadael ar ochr y ffordd.

**Lôn Goed** – adroddwyd bod yr arwydd 'anaddas ar gyfer cerbydau llydan' wedi llithro lawr y polyn.

**Arwydd Maes y Groes** – y polion ar gyfer yr arwydd i'w gweld nawr bod y coed heb ddail.

**Wal Maes y Groes** – adroddwyd bod car wedi taro'r wal ar y gornel unwaith eto a difrodi'r wal.

**Lôn Goed** – angen y lori i lanhau'r dail a mwd.